

*Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd
at Orchmynion Traffig a
Therfynau Cyflymder 20mya
Astudiaeth Omnibws Cymru
Tachwedd 2020*



Paratowyd ar gyfer:
Llywodraeth Cymru

Paratowyd gan:
Beaufort Research



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Manylion Cyswllt

Cyswllt yr Asiantaeth: Fiona McAllister

Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Orchmynion Traffig a Therfynau Cyflymder 20mya – Arolwg Omnibws Cymru Tachwedd 2020

Mawrth 2021

Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa

Caerdydd

CF10 3BG

(029) 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Telerau'r Contract

Oni chytunir fel arall, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn hawlfraint Beaufort Research Ltd, ac ni chaniateir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hailgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgynrychioli y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir nodi mai Beaufort Research Ltd yw'r darparwr, ynghyd â maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2021

Cynhaliwyd yr ymchwil hon yn unol ag ISO 20252



Cynnwys

1. Cyflwyniad ac amanon	4
2. Methodoleg	4
3. Canfyddiadau'r ymchwil	5
3.1 Gorchmynion Rheoleiddio Traffig	5
3.2 Terfynau Cyflymder 20mya	8
3.2.1 Pryderon ynghylch y ffyrdd a diogelwch ar y ffyrdd	8
3.2.2 Barn ar derfynau cyflymder a'r ymateb i derfyn cyflymder 20 mya	11
3.2.3 Effaith terfyn amser o 20mya ar deithio llesol	17
3.2.4 Agweddau at derfynau cyflymder 20mya	19
3.2.5 Ymwybyddiaeth o gyfathrebiadau	20
4. Crynodeb a chasgliadau	21
Atodiad 1 – Y Holiadur Ymchwil	23

1. Cyflwyniad ac amcanion

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn 2023 a fydd yn lleihau'r terfyn cyflymder o 30mya i 20mya mewn cymunedau preswyl ledled Cymru. Mae tystiolaeth mai canlyniad cyflymderau is yw llai o wrthdrawiadau ac anafiadau llai difrifol, yn ogystal â manteision amgylcheddol drwy leihau allyriadau o gerbydau a thrwy annog teithio llesol.

Felly, cafodd Beaufort ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i asesu agweddau'r cyhoedd at y newid ac i ddarparu data llinell sylfaen ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus cyn y newid deddfwriaethol.

Meysydd eraill o ddiddordeb a archwiliwyd yn yr arolwg, yn llai manwl, oedd agweddau'r cyhoedd at barcio ar y palmant a sianelau cyhoeddusrwydd ar gyfer Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

2. Methodoleg

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod Arolwg Omnibws Cymru Tachwedd 2020 gan Beaufort Research. Mae'r arolwg hwn yn cyfweld â sampl cwota cynrychioliadol o oedolion 16 mlwydd oed ac yn hŷn ledled Cymru.

Mae'r dull o gynnal ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol drwy Arolygon Omnibws wedi'i hen sefydlu. Fel y mae'r enw'n awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un dull arolwg, a manteisio ar gostau is. Mae tanysgrifwyr i wasanaeth omnibws yn prynu ar sail faint o gwestiynau y maent am eu gofyn i'r sampl a'r math o gwestiynau. I bob pwrpas, felly, mae pob tanysgrifiwr yn rhannu cost y cyfweld a chostau cyffredinol eraill â'i gyd-gleientiaid.

Nid oedd modd defnyddio dull arferol yr arolwg o gynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb, oherwydd argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19. Yn hytrach, cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer Arolwg Tachwedd 2020 ar-lein, gan ddefnyddio plattfform cyfathrebu ar-lein Cint™.

Mae plattfform Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO a safonau'r Insights Association. Mae Cint™ hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae gwiriadau ansawdd data amryfal wedi'u cynnwys yn system Cint™ gan gynnwys gwiriad IP GEO a CAPTCHA wrth gofrestru, dull adnabod ymatebwr unigryw a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Yn ogystal, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg, ac nid yw'n defnyddio ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

Roedd yr arolwg yn ddarostyngedig i reolaethau cwota demograffig sy'n cydblethu o ran oedran o fewn y rhywiau. Pennwyd rheolaeth gwota arall ar wahân ar gyfer statws cymdeithasol a chynhaliwyd cyfweiliadau â thrigolion o fewn pob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ystod y cam dadansoddi, cafodd y data eu pwysoli yn ôl grŵp oedran, rhyw, awdurdod lleol a statws cymdeithasol er mwyn cyfateb i ffigurau Cyfrifiad 2011, ac i sicrhau eu bod yn cynrychioli poblogaeth Cymru.

Mae cwestiynau'r arolwg yn Atodiad 1. Mae cwestiynau am ddemograffeg hefyd yn rhan safonol o Arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis yr ymatebwyr.

Cyfwelwyd â 1,002 o oedolion ar-lein rhwng 9 a 29 Tachwedd 2020.

Rhoddwyd tablau data llawn o'r arolwg i Lywodraeth Cymru mewn adroddiad technegol ar wahân.

3. Canfyddiadau'r ymchwil

3.1 Gorchmynion Rheoleiddio Traffig

Roedd y cwestiynau cyntaf yn canolbwyntio ar Orchmynion Rheoleiddio Traffig. Gofynnwyd i gyfranogwyr feddwl am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eu hardal, er enghraifft cau ffyrdd, gwaith ar y ffordd neu gyfyngiadau parcio newydd. Dywedwyd wrthynt fod gofyniad statudol i'r Cyngor lleol sicrhau bod defnyddwyr ffyrdd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ymlaen llaw drwy dri dull penodol:


1. Hysbysiad swyddogol yn y papur newydd lleol
2. Hysbysiad swyddogol yn y London Gazette
3. Rhoi'r dogfennau yn swyddfeydd yr awdurdod lleol (hynny yw, eu gwneud ar gael i'w harchwilio yn yr Adran Priffyrdd).

Wedyn gofynnwyd i'r cyfranogwyr pa rai, os o gwbl, yr oeddent wedi'u gweld neu wedi eu defnyddio.

Y sianel gyhoeddusrwydd fwyaf poblogaidd ar gyfer Gorchymyn Rheoleiddio Traffig oedd hysbysiad yn y papur newydd lleol, gydag un o bob pedwar aelod o'r cyhoedd (26%) yn dweud eu bod wedi gweld neu wedi defnyddio un o'r rhain. Roedd 15% arall wedi gweld neu wedi defnyddio dogfennau wedi'u rhoi yn swyddfeydd yr awdurdod lleol, a dim ond 3% oedd wedi gweld neu wedi defnyddio hysbysiad swyddogol yn y London Gazette.

Nid oedd bron dau draean o'r cyhoedd yng Nghymru (65%) erioed wedi defnyddio un o'r dulliau hyn i gael gwybod am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eu hardal (gweler Ffigur 1)

Ffigur 1: Pa rai o'r dulliau hyn rydych wedi'u gweld neu wedi'u defnyddio?




Sail: pob ymatebwr (1,002)

Pan ofynnwyd iddynt am ffyrdd eraill o gael gwybod am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eu hardal, os oeddent wedi cael gwybod o gwbl, dywedodd bron i hanner (46%) eu bod yn cael gwybod drwy arwyddion wrth ochr y ffordd, gyda phedwar o bob deg arall yn dweud eu bod yn cael gwybod drwy lafar gwlad a thua thraean (32%) drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr holl sianelau hyn yn cael eu defnyddio'n fwy helaeth nag unrhyw un o'r sianeli cyhoedduswydd swyddogol.

Ffynonellau eraill a nodwyd gan rhwng un ymatebwr o bob pump ac un o bob pedwar oedd hysbysiadau ar byst golau stryd, llythyrau i'w cartref, adroddiadau traffig ar radio lleol ac adroddiadau mewn papurau newydd lleol (gweler Ffigur 2).

Ffigur 2: Ym mha ffyrdd eraill, os o gwbl, rydych yn cael gwybod am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eich ardal?



Sail: pob ymatebwr (1,002)


Wedyn dangoswyd rhestr o sianeli cyfathrebu i'r cyfranogwyr (gan gynnwys y sianeli statudol presennol) a gofynnwyd iddynt pa ffordd a fyddai'n **well ganddynt** gael gwybod am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eu hardal yn y dyfodol.

Y ffynonellau gwybodaeth a ffefrir gan y cyhoedd ar gyfer y dyfodol oedd llythyr at eu cartref a negeseuon e-bost gan y Cyngor (gyda 43% a 42% o oedolion yn dewis y rhain yn y drefn honno). Dewisodd pedwar o bob deg arall arwyddion wrth ochr y ffordd a dywedodd ychydig o dan dri o bob deg y byddai'n well ganddynt gael gwybod drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor (gweler Ffigur 3).

Er mai drwy lafar gwlad oedd un o'r dulliau presennol o gael gwybod am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd a nodwyd yn amlaf, roedd yn llawer llai poblogaidd fel ffynhonnell wybodaeth a ffefrir.

Roedd llai o bobl yn ffafrio'r tri dull statudol o hysbysu am Orchmynion Rheoleiddio Traffig nag a oedd yn eu defnyddio ar y pryd.

Ffigur 3: Yn y dyfodol, sut hoffech chi gael eich hysbysu am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eich ardal?



Sail: pob ymatebwr (1,002)

3.2 Terfynau cyflymder 20mya

3.2.1 Pryderon ynghylch y ffyrdd a diogelwch ar y ffyrdd


Roedd gan tua thri oedolyn o bob deg yng Nghymru (31%) bryderon ynghylch ffyrdd lleol, diogelwch ar y ffyrdd a theithio o le i le yn eu hardal leol. Cododd hyn i bron bedwar o bob deg (38%) o'r rhai sydd â salwch, problem iechyd neu anabledd cyfyngus hirdymor.

Mae'r prif broblemau a nodwyd ganddynt pan ofynnwyd iddynt am eu pryderon, heb roi unrhyw awgrymiadau iddynt, fel a ganlyn:

- **Cyflwr gwael** y ffyrdd lleol (nodwyd hyn gan 35% o'r rheini a chanddynt bryderon),
- **Goryrru** / ceir sy'n mynd yn rhy gyflym (nodwyd hyn gan 16% o'r rheini a chanddynt bryderon). Roedd 3% arall yn galw am i'r terfyn cyflymder gael ei leihau yn eu hardal leol.

Nodwyd parcio anghyfreithlon neu beryglus gan 5% o'r rheini a chanddynt bryderon a nodwyd parcio ar y palmant gan 4% (gweler ffigur 4).

Ffigur 4: Pa bryderon sydd gennych ynghylch y ffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a mynd o le i le yn eich ardal leol?



Sail: y rheini sy'n lleisio pryderon ynghylch y ffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a theithio o le i le yn eu hardal leol (298)


Wedyn rhoddwyd gwahanol broblemau i bob cyfranogwr a gofynnwyd iddynt faint roeddent yn pryderu ynghylch pob un o'r rhain, os o gwbl.

Roedd y prif pryderon fel a ganlyn:

- Roedd bron i saith oedolyn o bob deg yng Nghymru yn pryderu'n fawr iawn neu'n teimlo'n eithaf pryderus ynghylch ceir neu gerbydau'n eraill yn cael eu **gyrru'n rhy gyflym yn gyffredinol** (yn codi i 73% o'r rheini a chanddynt blant o dan 16 oed yn eu haelwyd)
- Roedd dros chwech o bob deg (64%) yn pryderu'n fawr iawn / yn teimlo'n eithaf pryderus ynghylch ceir neu gerbydau eraill yn cael eu **gyrru'n rhy gyflym ar bwys ysgolion** (yn codi i 72% o'r rheini a chanddynt blant o dan 16 oed yn eu haelwyd)
- Roedd chwech o bob deg yn pryderu'n fawr iawn / yn teimlo'n eithaf pryderus ynghylch **parcio ceir ar y palmant** (yn codi i 69% o'r rheini a chanddynt babanod neu blant o dan chwe blwydd oed yn eu haelwyd)
- Roedd bron i hanner o'r cyfanswm (49%) yn pryderu'n fawr iawn / yn teimlo'n eithaf pryderus **nad oedd y ffyrdd yn ddiogel ar gyfer beicwyr** (yn codi i 67% o'r rheini sy'n defnyddio eu beiciau yn rheolaidd ar gyfer teithiau lleol).

Roedd y problemau eraill a roddwyd yn llai difrifol – gweler Ffigur 5.

Ffigur 5: Faint rydych yn pryderu am y problemau canlynol? (%)



Sail: pob ymatebwr (1,002)


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am eu canfyddiadau o ba mor ddiogel oedden nhw (neu eu plant) wrth ddefnyddio ffyrdd o amgylch eu hardal leol. Dengys Ffigur 6 ganran y cyfranogwyr oedd yn gallu ateb eu bod yn teimlo'n ddiogel neu nad oeddent yn teimlo'n ddiogel (hynny yw, ac eithrio'r rhai a atebodd 'ddim yn gwybod' neu 'ddim yn berthnasol') wrth gerdded neu feicio ar eu strydoedd lleol.

Mae'n dangos bod y mwyafrif helaeth yr oedd ganddynt farn (tuag wyth o bob deg) yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded yn eu hardal leol, wrth groesi'r ffordd ac wrth gerdded gyda'u plant i'r ysgol; fodd bynnag, roedd lleiafrif o tua un o bob pump nad oeddent yn teimlo'n ddiogel yn yr un o'r sefyllfaoedd hyn.

Er bod ychydig dros chwech o bob deg yn teimlo bod eu plant yn ddiogel wrth groesi'r ffordd yn lleol, roedd lleiafrif sylweddol o bron i bedwar o bob deg (38%) nad oeddent yn teimlo hynny.

Roedd barn pobl o ran beicio ar ffyrdd lleol bron wedi'i rhannu'n gyfartal – gydag ychydig dros hanner y rhai a fynegodd farn yn teimlo'n ddiogel wrth wneud hyn (54%), a bron yr un nifer (46%) yn teimlo nad oeddent yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd nifer y rhai oedd yn teimlo nad oedd eu plant yn ddiogel wrth feicio ar y ffyrdd yn uwch na'r rhai nad oeddent yn teimlo hynny (59% a 41% yn y drefn honno)

Ffigur 6: Pa mor ddiogel rydych yn teimlo wrth wneud y canlynol yn eich ardal?



Sail: pob ymatebwr (1,002); wedi'i hailgyfrifo i eithrio'r rheini a atebodd 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol', felly mae'n wahanol ar gyfer pob maes

3.2.2 Barn ar derfynau cyflymder a'r ymateb i derfyn cyflymder o 20mya

Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r terfyn cyflymder yn eu stryd, dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr (60%) 30mya. Dywedodd un o bob pedwar (26%) 20mya, gyda hyn yn codi 36% o'r rhai sy'n byw yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru (61%) yn fodlon ar y terfyn cyflymder presennol ar gyfer eu stryd, a dywedodd tua thraean (34%) nad oeddent yn fodlon. Cododd y gyfran a ddywedodd nad oeddent yn teimlo bod y terfyn cyflymder yn eu stryd yn gywir i 44% lle roedd y terfyn cyflymder presennol yn 30mya, a gostyngodd i 14% lle roedd y terfyn cyflymder presennol yn 20mya.

Pan ofynnwyd i'r rhai nad oeddent yn teimlo bod gan eu stryd y terfyn cyflymder cywir beth yr hoffent iddo fod, yn ddigymell awgrymodd dros naw o bob deg o'r rhai a hoffai weld newid (92%) derfyn cyflymder o 20mya neu is.

Byddai'r mwyafrif helaeth o'r rhai oedd am weld terfyn cyflymder gwahanol yn eu stryd (77%) yn hoffi gweld y terfyn cyflymder hwn yn cael ei gysoni drwy gydol yr ardal yr oeddent yn byw ynddi.

Wedyn gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr yn uniongyrchol a fyddent o blaid terfyn cyflymder o 20mya yn yr ardal yr oeddent yn byw ynddi. Dywedodd pedwar o bob pum oedolyn yng Nghymru (80%) y byddent, o'u cymharu ag un o bob pump (20%) a ddywedodd na fyddent.

Menywod, pobl â phlant yn eu haelwyd a'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol DE¹ oedd y mwyaf tebygol o fod o blaid terfyn cyflymder o 20mya (84% o bob grŵp, o'u cymharu ag 80% o oedolion yn gyffredinol). I'r gwrthwyneb, y rhai oedd y mwyaf tebygol o fod yn erbyn hynny oedd dynion, y rhai 65 oed ac yn hŷn a'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol AB (25%, 24% a 23% o bob grŵp yn y drefn honno, o'u cymharu ag 20% o oedolion yn gyffredinol). Er hynny, roedd y rhan fwyaf o bob un o'r grwpiau hyn o blaid terfyn cyflymder o 20mya.

Pan esboniwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau'r terfyn cyflymder o 30mya i 20mya mewn cymunedau preswyl ledled Cymru, dywedodd 80% o oedolion yng Nghymru eu bod o blaid y cynllun, gyda dros hanner yn gyffredinol (54%) yn gryf o blaid. Llai nag un o bob pump (17%) oedd yn erbyn y cynllun.

Y rhai â phlant yn eu haelwyd oedd y mwyaf tebygol o fod o blaid (87% o'u cymharu ag 80% yn gyffredinol). Roedd menywod, y rhai 35–54 oed a'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE hefyd, ar gyfartaledd, yn fwy tebygol o fod o blaid (gweler ffigur 7).

Ffigur 7: Beth yw eich barn ar y cynllun i leihau'r terfyn cyflymder i 20mya mewn cymunedau preswyl ledled Cymru?


¹ Mae dosbarth economaidd-gymdeithasol yn cael ei bennu ar sail teitl a statws swydd unigolion. Mae dosbarthiadau cymdeithasol yn cael eu diffinio fel a chanlyn:

AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolig

C1: Galwedigaethau goruchwyllo, clerigol a rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is

C2: Gweithwyr llaw medrus

DE: Gweithwyr llaw lled fedrus a di-grefft, y rheini ar bensiwn y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a'r gweithwyr ar y graddau isaf, y di-waith sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig



Sail: pob ymatebwr (1,002)

Gofynnwyd i'r rhai oedd **o blaid lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya** pam roeddent yn teimlo hynny.

Ymhlith y rhai oedd **o blaid y cynllun**, mae'r prif resymau a roddwyd, yn ddigymell, fel a ganlyn:

- byddai'n fwy diogel yn gyffredinol (yn ôl 18% oedd o blaid)
- mae gormod o oryrru ar hyn o bryd (13%)
- byddai'n fwy diogel ar gyfer plant (12%)
- byddai'n achub bywydau (10%),
- Byddai'n atal damweiniau (9%).

Mae rhestr o'r prif resymau a roddwyd yn Nhabl 1 Isod:

Tabl 1: Y prif resymau dros fod o blaid lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya	
%	
Mwy diogel / llai peryglus (yn gyffredinol)	18
Mae gormod o yrru / mae pobl yn gyrru'n rhy gyflym	13
Mwy diogel ar gyfer plant / plant yn chwarae	12
Bydd yn achub bywydau / lleihau marwolaethau mewn damweiniau	10
Bydd yn lleihau / atal damweiniau	9
Mwy diogel i gerddwyr / preswylwyr / y gymuned	7
Bydd yn gwneud yr ardal / strydoedd / ffyrdd yn fwy diogel	6
Mae 20mya / arafach yn well	5

Mae'n dibynnu ar y lleoliad / yr ardal / nid yw'n dderbyniol ym mhob man	4
Bydd yn lleihau goryrru / yn arafu gyrwyr	4
Mae llawer o blant / ysgolion yn fy ardal / plant yn chwarae yn y stryd	4
Mwy diogel ar gyfer pobl hŷn	4
Da ar gyfer yr amgylchedd / bydd yn lleihau allyriadau	3
Mae'n rhoi rhagor o amser i yrwyr ymateb / delio â pheryglon	3
Sail: y rhai oedd o blaid lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya (802)	

Mae'r prif resymau a roddwyd gan y rhai oedd **yn erbyn lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya** fel a ganlyn:

- mae 20mya yn rhy araf (yn ôl 18% o'r grŵp hwn)
- nid oedd angen lleihau'r terfyn cyflymder (17%)
- dim ond mewn rhai ardaloedd mae angen gwneud hynny (17%)
- byddai'n arwain at dagfeydd (15%).

Mae Tabl 2 yn rhoi'r rhesymau a roddwyd yn ddigymell:

Tabl 2: Y prif resymau dros fod yn erbyn lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya	
%	
Mae 20mya yn rhy araf	18
Dim angen	17
Mae'n dibynnu ar yr ardal / dim angen gwneud hynny ym mhob man	17
Bydd yn arwain at dagfeydd	15
Ni fydd pobl yn cadw ato/dibwynt	7
Mae'n anodd gyrru ar 20mya / ni fydd fy nghar yn gwneud 20mya	6
Bydd amseroedd teithio'n cynyddu	5
Gallai arwain at yrwyr yn mynd yn rhwystredig / colli ffocws	5
Nid oes angen os ydych yn gyrru'n ofalus / yn ôl amodau'r ffyrdd	5
30 yw'r cyflymder cywir / digon araf i fod yn ddiogel	5
Bydd yn peri llygredd / rhagor o allyriadau o gerbydau	4
Nid fydd yn cael ei orfodi / anodd ei orfodi	4
Sylwadau negyddol e.e. hurt, chwerthinllyd, gwirion	3
Sail: y rhai oedd yn erbyn lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya (172)	


Wedyn dangoswyd rhestr o resymau posibl dros fod o blaid terfyn cyflymder o 20mya i bob ymatebwr. Gofynnwyd iddynt pa rai, os o gwbl, yr oeddent yn cytuno â nhw.

Y rhesymau a gafodd y lefelau uchaf o gefnogaeth oedd *Mae'n ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr ac Mae'n golygu llai o ddamweiniau difrifol ar y ffyrdd* (gyda tua saith o bob deg yn cytuno). Roedd tua chwe oedolyn o bob deg yng Nghymru yn cytuno â'r datganiad *Mae'n golygu y gall plant chwarae'n fwy diogel ac Mae'n ei gwneud yn fwy diogel i feicwyr*, tra oedd ychydig dros hanner yn cytuno â'r datganiad *Mae'n gwneud strydoedd yn llefydd mwy dymunol i fyw ynddynt*.

Roedd rhwng tri a phedwar cyfranogwr o bob deg yn cytuno â phob un o'r rhesymau eraill o roddwyd, gan gynnwys *Mae'n yn lleihau sŵn* (38% yn cytuno) ac *Mae'n lleihau llygredd* (36% yn cytuno).

Dim ond 6% o oedolion yng Nghymru nad oeddent yn cytuno ag unrhyw un o'r rhesymau posibl dros fod o blaid terfynau cyflymder o 20mya.

Ffigur 8: Dyma rai rhesymau posibl dros fod o blaid terfynau cyflymder o 20mya. Pa rai rydych yn cytuno â nhw?



Sail: pob ymatebwr (1,002)

Pan roddwyd rhesymau posibl dros fod yn erbyn terfynau cyflymder o 20mya, y rhesymau a gafodd y lefau uchaf o gefnogaeth (gan bron i chwe oedolyn o bob deg yng Nghymru) oedd *Byddai llawer o yrwyr yn eu hanwybyddu* (bron i hanner) ac *Efallai na fyddent yn cael eu plismona na'u gorfodi yn effeithiol*.

Roedd tua phedwar oedolyn o bob deg yn cytuno â'r datganiad *Byddent yn cythruddo gyrwyr a Byddent yn gwneud amseroedd teithio'n hirach*, tra oedd un o bob pedwar yn cytuno â'r datganiad *Byddent yn cynyddu tagfeydd*.

Roedd un o bob deg oedolyn neu lai yn cytuno â phob un o'r rhesymau eraill.

Nid oedd ychydig o dan un cyfranogwr o bob pump (17%) yn cytuno ag unrhyw un o'r rhesymau dros fod yn erbyn terfynau cyflymder 20mya (gweler Ffigur 9):

Ffigur 9: Dyma rai rhesymau dros fod yn erbyn terfynau cyflymer o 20mya. Pa rai rydych yn cytuno â nhw?



Sail: pob ymatebwr (1,002)

3.2.3 Effaith terfynau cyflymder o 20mya ar deithio llesol

Gofynnwyd hefyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg pa wahaniaeth, os o gwbl, y gallai terfynau cyflymder 20mya ei wneud i'w hymddygiad personol. Gofynnwyd iddynt a fyddai terfynau cyflymder 20mya yn eu gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o wneud y canlynol:


- Cerdded mwy
- Gyrru mwy
- Beicio mwy

Dywedodd un oedolyn o bob tri yng Nghymru y byddai terfynau cyflymder o 20mya yn eu gwneud yn fwy tebygol o wneud rhagor o gerdded, tra oedd tua un o bob pump (22%) yn dweud y byddent yn fwy tebygol o wneud rhagor o feicio. Roedd y cyfrannau a ddywedodd y byddent yn llai tebygol o wneud rhagor o gerdded neu feicio pe bai terfyn cyflymder o 20mya yn llai o lawer (5% a 7% yn y drefn honno).

Roedd y sefyllfa o ran gyrru yn fwy cymysg. Dywedodd 11% y byddent yn fwy tebygol o wneud rhagor o yrru pe bai terfyn cyflymder o 20mya, gyda chyfran debyg (9%) yn dweud y byddent yn llai tebygol o wneud rhagor o yrru yn y sefyllfa hon.

Ymhlith oedolion yng Nghymru a fynegodd farn (hynny yw ac eithrio'r rhai a ddywedodd nad oedd yn berthnasol iddynt neu nad oeddent yn gallu ateb), cododd y cyfrannau a ddywedodd y byddent yn fwy tebygol o wneud rhagor o gerdded a beicio i 35% a 31% yn y drefn honno (gweler ffigur 10):

Ffigur 10: Allwch ddweud wrthyf pa wahaniaeth y gallai terfynau cyflymder o 20mya ei wneud ichi yn bersonol – a fyddent yn eich gwneud yn llai neu'n fwy tebygol o wneud y canlynol?



Sail: pob ymatebwr (1,002); wedi'i hailgyfrifo i eithrio'r rheini a atebodd 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol', felly mae'n wahanol ar gyfer pob maes

Y rhai oedd y mwyaf tebygol o ddweud y byddent yn **fwy tebygol o wneud rhagor o gerdded** pe bai terfyn cyflymder o 20mya oedd:

- **pobl ifanc** (46% o bobl 16–24 oed a 40% o bobl 25 – 34 oed, o'u cymharu â 33% o bob oedolyn)
- y rhai â **phlant o dan 16 oed yn eu haelwyd** (41%)
- y rhai sy'n **byw yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru** (37%)
- y rhai mewn grwpiau **BAME** (51%).

Y rhai oedd y mwyaf tebygol o ddweud y byddent yn **fwy tebygol o wneud rhagor o feicio** pe bai terfyn cyflymder o 20mya oedd:

- **pobl ifanc** (31% o bobl 16–34 oed o'u cymharu â 22% o bob oedolyn)
- **dynion** (25% o'u cymharu ag 19% o fenywod)
- y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol **ABC1** (24% o'u cymharu â rhai yn y grwpiau C2DE)
- y rhai â phlant yn eu haelwydydd (31%)

- yn rhanbarthol, y rhai sy'n byw yn y **Canolbarth/De-orllewin a Chaerdydd a'r De-ddwyrain** (26% a 25% yn y drefn honno)
- y rhai mewn grwpiau **BAME** (41%).

3.2.4 Agweddau at derfynau cyflymder o 20mya

Tua diwedd yr arolwg, cyflwynwyd cyfres o ddatganiadau i'r cyfranogwyr i fesur agweddau at derfynau cyflymder o 20mya a'r broblem o barcio ar y palmant. Gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad, gan ddefnyddio graddfa o gytuno'n gryf, cytuno, ddim cytuno nac anghytuno, anghytuno, ac anghytuno'n gryf. Rhoddwyd yr opsiwn 'ddim yn gwybod' hefyd.

Gan adlewyrchu'r lefel uchel o bryder ynghylch parcio ar y palmant a welwyd yn gynharach yn yr arolwg, cytunwyd yn cryf â'r datganiad *Mae parcio ceir ar y palmant yn broblem ddifrifol ar gyfer cadeiriau gwthio a defnyddwyr cadeiriau olwyn*, gyda thua wyth o bob deg yn cytuno â'r datganiad hwn.

Roedd cytundeb uchel hefyd (tua saith o bob deg o'r rhai y cyfwelwyd â nhw) â'r datganiadau canlynol:

- *Mae angen gorfodi priodol gan yr heddlu os yw terfynau 20mya yn mynd i weithio*
- *Hoffwn weld pawb yn arafu ychydig bach ar y ffyrdd*
- *Byddai'r strydoedd yn llawer brafach i gerddwyr gyda therfyn cyflymder o 20mya*
- *Pe bai terfynau cyflymder o 20mya yn cael eu cyflwyno ni fyddai'r rhan fwyaf o yrrwyr yn ufuddhau iddynt.*

Roedd yn amlwg bod y cytundeb â'r datganiad *Byddai arferion gyrru pobl yn newid pe bai terfynau o 20mya yn cael eu cyflwyno* yn llai pendant. Roedd ychydig dros bedwar oedolyn o bob deg yn (42%) cytuno â hyn, tra oedd bron i un o bob pedwar (23%) yn meddwl fel arall. Nid oedd 31% yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Roedd mwy o oedolion yn anghytuno nag oedd yn cytuno â'r datganiadau canlynol:


- *Mae terfynau 20mya yn enghraifft o wladwriaeth y nani (roedd 40% yn anghytuno, o'u cymharu â 25% yn cytuno)*
- *Mae'n rhy anodd cadw at 20mya (roedd 37% yn anghytuno, o'u cymharu â 32% yn cytuno)*

Nid oedd tua thri o bob deg yn gallu rhoi ateb i'r naill ddatganiad na'r llall.

Mae Ffigur 11 yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion i bob datganiad.

Ffigur 11: Agweddau'r cyhoedd at derfynau cyflymder o 20mya / parcio ar y palmant - %

Sail: pob ymatebwr (1,002)



3.2.5 Ymwybyddiaeth o gyfathrebiadau

Er mwyn darparu mesur llinell sylfaen ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu yn y dyfodol, cafodd cwestiwn ei gynnwys am ymwybyddiaeth o farchnata a chyfathrebu am ddeddfwriaeth i leihau'r terfyn cyflymder i 20mya yng Nghymru.

Dywedodd un o bob deg o'r rhai y cyfwelwyd â nhw ym mis Tachwedd 2020 (10%) eu bod wedi gweld neu wedi clywed rhywfaint am farchnata, cyfathrebu neu hysbysebu am ddeddfwriaeth ar y pwnc hwn. Er nad oedd unrhyw weithgareddau cyfathrebu wedi cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru ar y pryd, roedd y ddeddfwriaeth arfaethedig a'r gweithgareddau cysylltiedig, megis dadleuon yn y Senedd, wedi derbyn cryn sylw yn y cyfryngau. Mae hefyd yn arferol gweld rhywfaint o ddryswch ag ymgyrchoedd hysbysebu eraill.

4. Crynodeb a chasgliadau

Mae'r arolwg yn dangos cefnogaeth gref ymhlith y cyhoedd yng Nghymru i gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya mewn ardaloedd preswyl. Mae'r gefnogaeth ar ei chryfaf ymhlith rhieni, menywod a'r rhai yn yr ystod canol oed. Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod parcio ar y palmant yn peri pryder i'r rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru, yn enwedig i rieni babanod a phlant ifanc, pobl dros 65 oed a phobl anabl.

Yn ogystal, mae gan gyflwyno terfynau cyflymder o 20mya y potensial i annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio llesol, gyda chyfrannau sylweddol o'r cyhoedd yn dweud y byddent yn fwy tebygol o wneud rhagor o gerdded a beicio pe bai terfyn cyflymder lleol o 20mya. Roedd pobl ifanc a rhieni yn arbennig o debygol o ddweud y byddent yn gwneud rhagor o gerdded a beicio'n lleol.

Yn yr arolwg lleisiodd cyfrannau uchel o'r cyhoedd bryderon ynghylch cerbydau'n gyrru'n rhy gyflym yn gyffredinol, gyrru'n rhy gyflym ar bwys ysgolion a pharcio ceir ar y palmant. Y rhai â phlant yn eu haelwyd (yn enwedig plant ifanc, yn achos parcio ar y palmant) oedd y mwyaf tebygol o bryderu am y problemau hyn.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod eu plant yn ddiogel wrth groesi'r ffordd yn lleol, nid oedd bron i bedwar o bob deg yn teimlo hynny, ac nid oedd tua un o bob pump yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded gyda'u plant i'r ysgol. Roedd y niferoedd a oedd yn pryderu ynghylch diogelwch beicwyr ar ffyrdd lleol hyd yn oed yn uwch. Nid oedd bron i hanner y rhai a leisiodd farn yn teimlo'n ddiogel wrth feicio yn eu hardal leol, tra oedd tua chwech o bob deg yn teimlo nad oedd eu plant yn ddiogel wrth feicio ar ffyrdd lleol.

Diogelwch felly yw'r ysgogiad cryfaf i gefnogi lleihau'r terfyn cyflymder mewn ardaloedd preswyl ledled Cymru, yn enwedig i gerddwyr, plant a beicwyr. Daeth traffig sy'n goryrru i'r amlwg fel yr ail bryder digymell mwyaf i bobl ynglŷn â ffyrdd yn eu hardal leol.

Mae llai o ymwybyddiaeth neu gydnabyddiaeth o effaith amgylcheddol unrhyw ostyngiad i derfynau cyflymder ar hyn o bryd. Roedd ychydig dros draean o oedolion yn cytuno y byddai lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya yn *Lleihau llygredd*, o'u cymharu â thua saith o bob deg yn cytuno ei fod yn *Ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr* ac yn *Golygu llai o ddamweiniau difrifol ar y ffyrdd*. Felly, nid yw'r gostyngiad mewn allyriadau cerbydau fel un o fanteision terfynau cyflymder is mor uchel ym meddyliau pobl na diogelwch.

Mae prif amheuon y cyhoedd ynghylch lleihau'r terfyn cyflymder i 20mya yn ymwneud â:

- Gorfodi
- Newid ymddygiad gyrrwyr
- A allai achosi tagfeydd.

Mae'r arolwg yn dangos bod y cyhoedd yng Nghymru o'r farn bod gorfodi yn hanfodol er mwyn i'r polisi newydd lwyddo – mae saith oedolyn o bob deg yn teimlo bod angen *Gorfodi priodol gan yr heddlu er mwyn i derfynau cyflymder o 20mya*

*weithio. Ar yr un pryd mae llawer iawn o amheuaeth ynghylch a fydd ymddygiad gyrwyr yn newid – roedd dau oedolyn o bob tri yng Nghymru o'r farn, pe bai terfynau cyflymder o 20mya yn cael eu cyflwyno, na fyddai'r rhan fwyaf o yrwyr yn cadw atynt ac roedd tuag un o bob pedwar yn anghytuno â'r datganiad y *byddai arferion gyrru pobl yn newid pe bai terfynau o 20mya yn cael eu cyflwyno.**

Er mwyn goresgyn pryderon ynghylch gorfodi, bydd angen gwaith partneriaeth effeithiol gyda'r heddlu a gweithredwyr camerâu diogelwch er mwyn sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith ledled Cymru i sicrhau cydymffurfiaeth â'r terfyn cyflymder newydd. Gellir mynd i'r afael â materion eraill (fel pryderon am dagfeydd) drwy negeseua yn ystod yr ymgyrch gyfathrebu.

Mae'r ymchwil yn dangos bod rhai grwpiau o fewn y boblogaeth yn llai tebygol o fod o blaid terfynau cyflymder o 20mya – sef dynion, pobl iau a phobl dros 65 oed – felly mae angen targedu'r grwpiau hyn wrth gynllunio'r cyfryngau ar gyfer yr ymgyrch. Mae'n debygol y bydd angen sianeli gwahanol er mwyn cyrraedd y gwahanol grwpiau ddemograffig hyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ymchwil yn dangos mai dynion a phobl dros 65 oed sydd fwyaf tebygol o ddarllen papur newydd dyddiol yn y DU, gan awgrymu y gallai hysbysebu yn y wasg fod yn sianel effeithiol ar gyfer targedu pobl hŷn. Mae pobl dros 65 oed hefyd yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o wyllo teledu masnachol bob dydd. I'r gwrthwyneb, pobl iau sydd leiaf tebygol o wyllo'r teledu, gwranddo ar orsafoedd radio masnachol neu ddarllen papurau newydd yn rheolaidd, ond nhw yw'r mwyaf tebygol o dreulio llawer o amser ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol fel Instagram.

O ran Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, mae'r data'n awgrymu nad yw'r sianeli hysbysebu statudol bellach yn addas i'r diben ar gyfer cyrraedd aelodau'r cyhoedd. Dim ond tua thraean o oedolion Cymru a oedd erioed wedi gweld neu glywed newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd lleol yn cael eu hysbysu drwy unrhyw un o'r sianeli statudol presennol. Roeddent yn llawer mwy tebygol o gael gwybod am newidiadau i'r ffyrdd drwy arwyddion ffyrdd, drwy lafar gwlad ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, y dulliau a ffefrir ar gyfer y dyfodol oedd cyfathrebu swyddogol wedi'i dargedu'n well yn hytrach na sianeli anffurfiol fel drwy lafar gwlad a'r cyfryngau cymdeithasol. Cyfathrebu uniongyrchol gan y Cyngor drwy e-bost neu lythyr i'w cartref oedd y sianeli yr oedd y ganran uchaf o'r cyhoedd yn eu ffafrio.

Mae canlyniadau arolwg Tachwedd 2020 yn darparu data llinell sylfaen cadarn ar fetrigau allweddol megis lefel y gefnogaeth i derfynau cyflymder o 20mya, agweddau at y terfyn cyflymder is, ymwybyddiaeth o'r ymgyrch a rhwystrau / ysgogwyr i newid ymddygiad. Rydym yn argymhell bod y mesurau hyn yn cael eu tracio'n rheolaidd wrth symud ymlaen, i fonitro unrhyw newidiadau mewn barn ac agweddau ac i asesu effeithiolrwydd hysbysebu a marchnata Llywodraeth Cymru. Bydd amllder ac amseriad y gwaith o dracio'r ymchwil yn dibynnu ar amseriad a lefel y gweithgareddau cyfathrebu, ond byddem yn awgrymu y dylid cynnal ymarfer tracio o leiaf unwaith y flwyddyn, gyda'r amllder yn codi o amgylch lansiad yr ymgyrch a chyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd.

Ochr yn ochr â'r tracio meintiol, ac i lywio negeseuon yn yr ymgyrch cyfathrebu cyhoeddus, byddem yn argymhell cynnal ymchwil fanwl bellach gan ddefnyddio technegau ansoddol. Byddai hyn yn werthfawr ar gyfer archwilio agweddau a'r

ysgogwyr a'r rhwystrau i newid ymddygiad gyrwyr yn fanylach, yn enwedig ymhlith y cynulleidfaoedd hynny sydd a'r agwedd leiaf ffafriol at derfynau cyflymder o 20mya. Byddai ymchwil gyda grwpiau ffocws yn ddefnyddiol, er enghraifft, ymhlith dynion iau a hŷn, i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u hagweddau a galluogi datblygu negeseuon wedi'u targedu ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn

Atodiad 1 – Holiadur Ymchwil

B02010-4 Arolwg Omnibws Cymru mis Tachwedd

Llywodraeth Cymru: Cwestiynau am Derfynau Cyflymder 20mya /
Gorchmynion Traffig
TERFYNOL 29.10.20

RHAN I – Gorchmynion Traffig

Q1. Gan feddwl nawr am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eich ardal, er enghraifft, cau ffyrdd, gwaith ar y ffyrdd neu gyfyngiadau parcio newydd. Mae gofyniad statudol i'r Cyngor lleol hysbysu defnyddwyr ffyrdd am unrhyw newidiadau ymlaen llaw yn y ffyrdd dilynol:

1. Dogfennau wedi'u rhoi yn swyddfeydd yr awdurdod lleol (hynny yw, eu gwneud ar gael i'w harchwilio yn yr Adran Priffyrdd)
2. Hysbysiad swyddogol yn y papur newydd lleol
3. Hysbysiad swyddogol yn y London Gazette

Pa rai o'r dulliau hyn, os o gwbl, yr ydych chi wedi'u gweld neu wedi eu defnyddio?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Dogfennau wedi'u rhoi yn swyddfeydd yr awdurdod lleol (hynny yw, eu gwneud ar gael i'w harchwilio yn yr Adran Priffyrdd)
Hysbysiad swyddogol yn y papur newydd lleol
Hysbysiad swyddogol yn y London Gazette

Dim o'r rhain

Q2. Ym mha ffyrdd eraill, os o gwbl, rydych yn cael gwybod am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eich ardal? *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Llythyr at fy nghartref
Hysbysiadau ar byst golau stryd
Adroddiadau mewn papurau newydd lleol
Arwyddion wrth ochr y ffordd
Y cyfryngau cymdeithasol
Adroddiadau traffig ar radio lleol
Drwy lafar gwlad

Arall (Nodwch) _____

Dim o'r rhain – ddim yn cael gwybod ymlaen llaw fel arfer (*Cod sengl*)

Q3. Yn y dyfodol, sut hoffech chi gael eich hysbysu am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd yn eich ardal? *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Gwefan y Cyngor

Dogfennau wedi'u rhoi yn swyddfeydd yr awdurdod lleol (hynny yw, eu gwneud ar gael i'w harchwilio yn yr Adran Priffyrdd)

E-bost gan y Cyngor

Llythyr at fy nghartref

Apiau gyrru ar fy ffôn symudol, e.e. Google Maps, Waze

Hysbysiadau ar byst golau stryd

Hysbysiad swyddogol yn y papur newydd lleol

Hysbysiad swyddogol yn y London Gazette

Adroddiadau mewn papurau newydd lleol

Sat nav

Arwyddion wrth ochr y ffordd

Y cyfryngau cymdeithasol

Adroddiadau traffig ar radio lleol

Gwefannau traffig e.e. AA, RAC, Traffig Cymru

Drwy lafar gwlad

Arall (Nodwch) _____

Dim o'r rhain – nid wyf am gael fy hysbysu am newidiadau i'r rhwydwaith ffyrdd (*Cod sengl*)

RHAN II – 20mya

Q1. Oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y ffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a mynd o le i le yn eich ardal leol?

Oes – GOFYNNWCH Q2

Nac oes – EWCH I Q3

OS OES UNRHYW BRYDERON

Q2. Pa bryderon sydd gennych? Unrhyw beth arall? Nodwch

GOFYNNWCH I BAWB

Q3. Faint rydych yn pryderu, os o gwbl, ynghylch y problemau canlynol yn eich ardal leol? (Pryderu'n fawr iawn / Eithaf pryderus / Ddim yn bryderus iawn / Ddim yn pryderu o gwbl / Ddim yn gwybod)

- i) Ceir neu gerbydau eraill yn cael eu gyrru'n rhy gyflym yn gyffredinol
- ii) Ceir neu gerbydau eraill yn cael eu gyrru'n rhy gyflym ar bwys ysgolion
- iii) Ceir a cherbydau eraill yn cael eu parcio ar y palmant
- iv) Ffyrdd nad ydynt yn ddiogel ar gyfer beicwyr
- v) Dim digon o lonydd beiciau
- vi) Anodd croesi'r ffordd yn ddiogel
- vii) Ansawdd aer gwael /allyriadau cerbydau
- viii) Anodd dod o hyd i le parcio yn agos at fy nghartref

Q4. Pa mor ddiogel rydych yn teimlo wrth wneud y canlynol yn eich ardal? (Diogel iawn / Eithaf diogel / Ddim yn ddiogel iawn / Ddim yn ddiogel o gwbl / Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol) *Trefnwch ar hap*

- i) Cerdded
- ii) Cerdded gyda fy mhlant i'r ysgol
- iii) Beicio ar ffyrdd lleol
- iv) Fy mhlant yn beicio ar ffyrdd lleol
- v) Croesi'r ffordd
- vi) Fy mhlant yn croesi'r ffordd

Q5. Beth yw'r terfyn cyflymder ar eich stryd chi? *Nodwch*

Q6. Ydych chi'n teimlo mai hwn yw'r terfyn cyflymder priodol ar gyfer eich stryd?

- | | |
|----------------|----------------|
| Ydw | - Ewch i Q9 |
| Nac ydw | - Gofynnwch Q7 |
| Ddim yn gwybod | - Ewch i Q9 |

OS NAC YDYCH

Q7. Pa derfyn cyflymder hoffech chi ei weld ar eich stryd? *Nodwch*

Q8. Hoffech chi weld y terfyn cyflymder hwn yn cael ei osod ledled yr ardal lle rydych yn byw?

- Hoffwn
- Na hoffwn

GOFYNNWCH I BAWB

Q9. A fydddech chi'n cefnogi terfyn cyflymder o 20mya yn yr ardal lle rydych yn byw?

Byddwn
Na fyddwn
Ddim yn gwybod

Q10. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau'r terfyn cyflymder o 30mya i 20mya mewn cymunedau preswyl ledled Cymru. Beth yw eich barn ar y syniad hwn?

O blaid yn gryf - Gofynnwch Q11
Dipyn o blaid - Gofynnwch Q11
Dipyn yn erbyn - Gofynnwch Q12
Yn gryf yn erbyn - Gofynnwch Q12

Ddim yn gwybod - Ewch i Q13

OS ATEBWYD O BLAID I Q10

Q11. Pam rydych chi o blaid gostwng y terfyn cyflymder i 20mya? Unrhyw beth arall? Nodwch

OS ATEBWYD YN ERBYN I Q10

Q12. Pam rydych chi yn erbyn gostwng y terfyn cyflymder i 20mya? Unrhyw beth arall? Nodwch

GOFYNNWCH I BAWB

Q13. Dyma rai o'r rhesymau pam y gallai pobl gefnogi terfynau cyflymder o 20mya. Â pha rai o'r rhain rydych yn cytuno? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Annog mwy o gerdded a beicio
Gwella ansawdd bywyd
Gwella llif y traffig
Ei gwneud yn fwy diogel i feicwyr
Ei gwneud yn fwy diogel i gerddwyr
Gwneud strydoedd yn llefydd mwy dymunol i fyw ynddynt
Golygu y gall plant chwarae'n fwy diogel
Golygu llai o ddamweiniau difrifol ar y ffyrdd
Lleihau sŵn
Lleihau llygredd

Dim o'r rhain
Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH I BAWB

Q14. Dyma rai o'r rhesymau pam y gallai pobl wrthwynebu terfynau cyflymder o 20mya. Â pha rai rydych yn cytuno? Codiwch bob un a nodir

Cynyddu damweiniau
Cynyddu tagfeydd
Cynyddu llygredd
Gwneud amseroedd teithio'n hirach
Gwneud ansawdd bywyd yn waeth
Efallai byddai nifer o yrwyr yn anwybyddu'r terfyn cyflymder
Efallai na fydd y terfyn cyflymder yn cael ei blismona na'i orfodi yn effeithiol
Byddai'n cythruddo gyrrwyr
Ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth i ddiogelwch beicwyr
Ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth i ddiogelwch cerddwyr

Dim o'r rhain
Ddim yn gwybod

Q15. A allwch chi ddweud wrthyf ba wahaniaeth y gallai terfynau cyflymder o 20mya ei wneud i chi yn bersonol – a fyddent yn eich gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o wneud y canlynol? (Llawer mwy tebygol / Ychydig yn fwy tebygol / Dim gwahaniaeth / Ychydig yn llai tebygol / Llawer llai tebygol / Ddim yn gwybod / Ddim yn berthnasol)

I'w trefnu ar hap

- i) Cerdded mwy
- ii) Gyrru mwy
- iii) Beicio mwy

Q16. A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw farchnata, cyfathrebu neu hysbysebu'n ddiweddar am ddeddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder i 20mya yng Nghymru?

Ydw
Nac ydw

Q17. A allwch chi ddweud wrthyf i ba raddau y byddech chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Dywedwch wrthyf a ydych yn cytuno yn gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. I'w trefnu ar hap

- i) Pe bai terfynau cyflymder o 20mya yn cael eu cyflwyno ni fyddai'r rhan fwyaf o yrwyr yn ufuddhau iddynt
- ii) Mae parcio ceir ar y palmant yn broblem difrifol ar gyfer cadeiriau gwithio a defnyddwyr cadeiriau olwyn
- iii) Mae'n rhy anodd cadw at 20mya
- iv) Hoffwn weld pawb yn arafu ychydig bach ar y ffyrdd

- v) Mae terfynau o 20mya yn enghraifft o wladwriaeth y nani
- vi) Byddai'r strydoedd yn llawer brafiach i gerddwyr gyda therfyn cyflymder o 20mya
- vii) Mae angen gorfodi priodol gan yr heddlu os yw terfynau o 20mya yn mynd i weithio
- viii) Byddai arferion gyrru pobl yn newid pe bai terfynau o 20mya yn cael eu cyflwyno

Q18. Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi'n eu gyrru? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

Coets/bws
Fan waith
Car cwmni
Lori
Beic modur
Car preifat ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith
Car preifat at ddefnydd personol
Car preifat ar gyfer defnydd personol
Taksi
Dim o'r rhain

GOFYNNWCH MEWN PERTHYNAS Â HYD AT 3 A NODWYD UCHOD

Q19. Pa mor aml rydych yn gyrru [math o gerbyd o Q18]?

Bob dydd
Bron bob dydd
2–3 gwaith yr wythnos
2–3 gwaith y mis
Oddeutu unwaith y mis
Bob 2–3 mis
Llai aml
Ddim o gwbl

GOFYNNWCH I BAWB

Q20. Pa mor aml, os o gwbl, rydych chi'n gwneud y canlynol? (Defnyddiwch yr un raddfa â Q19 yn ogystal â byth) Trefnwch ar hap

- i) Cerdded ar gyfer teithiau lleol (sy'n cymryd hyd at 20 munud)
- ii) Beicio ar gyfer teithiau lleol (sy'n cymryd hyd at 20 munud)
- iii) Defnyddio trafndiaeth cyhoeddus

Yn ogystal â chwestiynau proffilio safonol: oedran, rhyw, dosbarth economaidd-gymdeithasol, rhanbarth o Gymru, siaradwr Cymraeg (wedi'u cynnwys yn y costau)

Cwestiynau ychwanegol at ddibenion dadansoddi: aelodau o'r aelwyd (e.e. plant yn yr aelwyd), statws swydd, salwch cyfyngus, ethnigrwydd (cost ychwanegol fach)

Yn ogystal â chwestiynau ychwanegol am y defnydd o'r cyfryngau:

Q. Tua pha mor aml rydych yn gwneud pob un or rhain?
(O leiaf unwaith y dydd / O leiaf unwaith yr wythnos / Llai aml / Byth)

- 01: Darllen papur newydd cenedlaethol (DU)
- 02: Darllen papur newydd cenedlaethol (Cymru)
- 03: Darllen papur newydd lleol
- 04: Gwrando ar orsaf radio'r BBC
- 05: Gwrando ar orsaf radio fasnachol
- 06: Gwyllo teledu'r BBC
- 07: Gwyllo teledu masnachol
- 08: Defnyddio'r rhyngrwyd
- 09: Defnyddio Facebook
- 10: Defnyddio Twitter
- 11: Defnyddio Instagram
- 12: Defnyddio Snapchat
- 13: Defnyddio Youtube
- 14: Defnyddio ap ar fy ffôn clyfar